



# YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP

LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW

post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru

www.yggllangynwyd.cymru

@YGGLLANGYNWYD

01656 815700

01656 815701

17<sup>eg</sup> Rhagfyr 21

Annwyl bawb,

Hoffem eich diweddarau ar ran ein cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr 2022.

Byddwch yn ymwybodol o'r sefyllfa Covid-19 sy'n esblygu ar hyn o bryd, a hoffem eich sicrhau y byddwn, fel erioed, yn parhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn cadw cymuned yr ysgol yn ddiogel ac yn dysgu.

Er mwyn sicrhau ein bod yn barod i groesawu dysgwyr a staff yn ôl ym mis Ionawr, byddwn yn defnyddio **dydd Mawrth 4<sup>ydd</sup> a dydd Mercher 5<sup>ed</sup> Ionawr** fel diwrnodau cynllunio staff - bydd hyn yn golygu bod yr ysgol wedi'i pharatoi'n dda ar gyfer dychwelyd.

Fel y nodwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg Mr Lindsay Harvey, bydd yr ysgol ar gau i'r holl ddygwyr a ni fydd gwaith yn cael ei baratoi ar gyfer y deuddydd hwn. Y bwriad yw i groesawu dysgwyr yn ôl i'r ysgol o ddydd Iau 6<sup>ed</sup> Ionawr.

Hoffwn bwysleisio bydd arholiadau allanol yn parhau yn mis Ionawr, a bod yn allweddol i'r dysgwyr hynny sydd yn sefyll yr arholiadau hyn i baratoi atynt yn ôl y drefn arferol.

Byddaf yn eich llythyru chi eto ar ddydd Mawrth 4<sup>ydd</sup> Ionawr gyda threfniadau terfynol ail agor yr ysgol, gan amlinellu unrhyw drefniadau amgen bydd mewn lle os bydd rhaid.

Ar ddiwedd y tymor hwn, bydd fy nghyfnod o gynorthwyo Ysgol Gyfun Gwynllyw yn dod i ben. Mae wedi bod yn fraint i gael cynorthwyo'r ysgol ar ei thaith i welliant ac yn ystod ymweliad diweddar Estyn â'r ysgol, roedd yn braf gweld bod Estyn yn cydnabod y systemau sydd bellach mewn lle a chynnydd yn datblygu. Rwy'n dymuno pob llwyddiant i Wynllyw ac edrychaf ymlaen at ddychwelyd i'm rôl fel Prifathro Llangynwyd. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mrs Lisa Woodrow a'r uwch dîm arwain am arwain Llangynwyd yn ystod fy absenoldeb tra'n helpu Gwynllyw.


Hoffwn i ddymuno Nadolig llawen a diogel i chi a'ch teuluoedd ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn newydd.

Cofion,

Meurig Jones

Prifathro

D Y S G . . . D A W N . . . D Y F O D O L . . .





# YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP

LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW

post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru

www.yggllangynwyd.cymru

@YGGLLANGYNWYD

01656 815700

01656 815701

17<sup>th</sup> December 21

Dear all,

I would like to update you in respect of our plans for returning to school in January 2022.

You will be aware of the evolving Covid-19 situation at the moment, and we would like to assure you that, as ever, we will continue to follow Welsh Government guidance in order to keep the school community learning and safe.

To ensure that we are ready to welcome learners and staff back in January, **Tuesday 4<sup>th</sup> and Wednesday 5<sup>th</sup> January** will be used as staff planning days – this will mean that the school is well prepared for learners to return.

As noted by the Director of Education, Mr Lindsay Harvey, the school will be closed to all learners and work will not be provided for these two days. The intention will then be to welcome learners back to school from Thursday 6<sup>th</sup> January.

I would like to emphasise that external examinations will go ahead as planned in January, and it will be key for those learners who are sitting these examinations to prepare for them as usual.

I will write to you again on Tuesday 4<sup>th</sup> January with details of the school's re-opening arrangements, outlining any alternative arrangements that will be in place if required.

At the end of this term, my period of assisting Ysgol Gyfun Gwynllyw will end. It has been a privilege to assist the school in its journey of improvement and during Estyn's recent visit to the school, it was pleasing to see that Estyn recognised the systems now in place and that progress is developing. I wish Gwynllyw every success and look forward to returning to my role fulltime, as Headteacher of Llangynwyd. I am grateful and thankful to Mrs Lisa Woodrow and the senior leadership team for leading Llangynwyd during my absence whilst supporting Gwynllyw.

I would like to wish you and your families a happy and safe Christmas and look forward to 2022.

Cofion,

Meurig Jones  
Prifathro

D Y S G . . . D A W N . . . D Y F O D O L . . .

